# Cofnodion o Gyfarfod o Gyngor Cymuned Ciliau Aeron a gynhaliwyd ar nos Iau 3ydd o Fedi 2015 am 7.30 pm yn Neuadd Ciliau Aeron

Yn bresennol: Y Cynghorydd Gwyndaf Morgan (Cadeirydd), y Cynghorwyr Helen Evans, John Emrys Jones, John Lumley, Aneurin Roberts ac Iwan Thomas .

1 Ymddiheuriadau

Ymddiheurodd y Cynghorwyr Robert Davies, Dai Evans, Arwel Jones a Gwyn Jones am fethu a bod yn bresennol yn y cyfarfod.

2 Datgelu Buddiannau Personol a Rhai Sy’n Rhagfarnu

Fe fu i’r Cynghorwyr John Lumley a Gwyndaf Morgan ddatgelu buddiant personol ac un sy’n rhagfarnu yn y mater y cyfeirir ato yng nghofnod 5 b) isod.

3 Cofnodion y Cyfarfod Diwethaf

PENDERFYNWYD cymeradwyo, fel rhai cywir, cofnodion o’r cyfarfod a gynhaliwyd ar y 2il o Orffennaf 2015, yn amodol ar newid cofnod 8 b) i’w wneud yn glir fod y Cyngor wedi cytuno gwneud cyfraniad o £125 i Eistedfod Ciliau Aeron.

4 Materion yn Codi o’r Cofnodion

a) Cofnod 4 – Mynwent Cilcennin. Adroddodd y Cynghorydd John Emrys Jones mai’r cyngor a gafwyd oedd i wneud cais i asiantwyr yr Eglwys yng Nghymru, sef Cooke and Arkwright, ac i baratoi at hynny, PENDERFYNWYD wneud y canlynol:
   - cael eglurhad gan Gyngor Sir Ceredigion a fyddai angen cael caniatad cynllunio i newid defnydd o’r cae ac i gael mynedfa newydd, os bydd angen un
   - cael gwerthusiad annibynnol o’r tir gan brisiwr ar ran y Cyngor.

b) Cofnod 4 – Llwybr Troed Tirbach - Bethlehem. Cytunwyd i gwrdd ar y safle er mwyn cael darlun cliriach o’r sefyllfa cyn cael trafodaeth pellach.

5 Ceisiadau Cynllunio

PENDERFYNWYD cadarnhau’r sylwadau canlynol a anfonwyd at Gyngor Sir Ceredigion:-

a) A150068 Pant yr Hen, Ciliau Aeron**.** Codi (a gweithredu) tyrbein gwynt unigol at uchder o 45.07m ar ei goryn a datblygiadau cefnogol gan gynnwys cabinet rheoli trydan, gwely craen a thramwyfa dros dro.

*Dim sylwadau penodol ond fe ofynnir i chi dalu sylw i unrhyw sylwadau a wnaed gan unrhyw drigolion gerllaw'r datblygiad a effeithir ganddo.*

b) A150324/325 Y Stabl Fach, Cilcennin**.** Adfer a'i ddychwelyd i anneddle dwy ystafell wely gan gynnwys ailosod ffenestri a drysau yn y bylchau presennol. Dymchwel un wal fewnol a chreu bwlch ar gyfer drws newydd.

*Dim gwrthwynebiad.*

c) A150420 The Old Barn, Ciliau Aeron. Estyniad arfaethedi yn cynnwys ystafell haul a balcony newydd gyda balustrading around the perimeter

*Dim gwrthwynebiad ond bod angen sicrhau bod y llwybr cyhoeddus (sy'n rhedeg ar ochr deheuol y safle) ddim yn cael ei effeithio gan y datblygiad.*

6 <u>Dogfen Ymgynghori Cyngor Sir Ceredigion: Heneiddio'n Dda yng Ngheredigion</u>

Rhoddwyd ystyriaeth i'r ddogfen ymgynghori ac yn benodol y rhan yn cyfeirio at ddatblygu 'cymunedau s'yn ystyriol o oedran' yn y sir yn Thema 1 a'r cyfeiriad at weithio gyda phartneriaid a'r gymuned leol.

PENDERFYNWYD croesawi amcanion y ddogfen yn gyffredinol a rhoi gwybod i'r Cyngor Sir fod y Cyngor yn barod i gydweithredu gyda datblygu *lleoliadau yn ystyriol o oedran* o fewn y cymunedau lleol.

7 <u>Ymgynghoriad Cyngor Sir Ceredigion ar Gyllideb 2015-16</u>

PENDERFYNWYD nodi'r drefn a sefydlwyd gan y Cyngor Sir i roddi cyfle i unigolion gyfrannu at yr ymarferiad 'Her y Gyllideb' ac i annog Cynghorwyr i fentro gyda'r ymarferiad ar-lein.

8 <u>Taliadau</u>

Cytunwyd cadarnhau'r taliadau canlynol:-

Cyfraniad i Eisteddfod Ciliau Aeron - £125
Relax Gardens am dorri gwair - £150
Zurich Municipal – Yswiriant Blynyddol - £375.86

9 <u>Cyfrifon Blynyddol 2014-15</u>

Adroddodd y Clerc fod Cyfrifon Blynyddol 2014-15 wedi'u dychwelyd heddiw oddi wrth yr Archwilwyr Allanol ac mae 'qualified audit' a roddwyd a bod angen i'r Cyngor nodi'r materion canlynol a godwyd ganddynt:

- angen cynyddu gwerth yr Asedau i £7,930 i gynnwys y celfi picnic a brynwyd yn 2014 a'i gynnwys yn Adran 1.12 y Ffurflen Flynyddol
- cynnwys nodyn o'r cofnod perthnasol yn Adran 3 y Ffurflen Flynyddol

- y methiant i gymeradwyo'r Cyfrifon cyn diwedd Mehefin a chyhoeddi'r Rhybudd perthnasol.

Nodwyd y gwybodaeth a roddwyd gan y Clerc a chytunwyd ar y drefn i sicrhau fod y Cyfrifon yn cael eu cymeradwyo cyn Mehefin yn ystod y blynyddoedd a ddaw.

Dywedodd y Clerc fod y Ffurflen wedi'i ddiwygio ganddo ac ei fod yn barod i'w lofnodi gan y Cadeirydd.

PENDERFYNWYD cymeradwyo'r Cyfrifon a ddiwygiwyd a chawsant eu llofnodi gan y Cadeirydd.

10 <u>Unrhyw Fater Arall</u>

a) Cynhadledd / Cyfarfod Blynydol Un Llais Cymru

PENDERFYNWYD:

- awdurdodi'r Cynghorwyr Gwyndaf Morgan a John Lumley i gynrychioli'r Cyngor ar Ddydd ym Mhafiliwn Bont, Pontrhydfendigaid
- trafod y cynigion a ddaeth i law yn y cyfarfod nesaf er mwyn rhoi mandad I'r ddau gynrychiolydd.

b) gwneud ymholiadau gyda'r Cyngor Sir oes taw y nhw sy'n gyfrifol am docio'r gwrych sydd yn ffinio ag Ystad Dolanog ar ymyl yr A482 yng Nghiliau Aeron gan ei fod yn creu rhwystr ar y palmant.

Daeth y cyfarfod i ben am 8.25 pm

<u>Dyddiad y cyfarfod nesaf: Nos Iau 1af o Hydref 2015</u>